

RHYBUDD O GANLYNIAD ARCHWILIAD

(DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004
RHEOLIADAU ARCHWILIO A CHYFRIFO (CYMRU) 2014)

CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR

Y mae RHYBUDD yn cael ei roddi bod yr archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diweddau
ar 31 Mawrth 2020 wedi ei gwblhau ar

19 Tachwedd 2020

ac mae'r cyfrifon yn awr ar gael i etholwyr lleol eu harchwilio yn unol ag Adran 29
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Mae'r wybodaeth angenrheidiol fel y'i diffinnir gan Adran 18 Rheoliadau Cyfrifon ac
Archwilio (Cymru) 2014 yn cael ei harddangos wrth ochr yr hysbysiad hwn.

Dyddiedig: 7.12.2020



(Swyddog Cyllido Cyfrifol) -----

NODIADAU I'R SWYDDOG CYLLIDO CYFRIFOL

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd yr archwiliad, rhaid rhoi rhybudd fel a ganlyn:

Arddangos Hysbysiad o Ddiweddu mewn un neu ragor o fannau amlwg yn hysbysu bod yr archwiliad wedi'i ddiweddu a rhoi gwybod i'r archwilydd yn ysgrifenedig fod hyn wedi digwydd. Rhaid arddangos yr hysbysiad am o leiaf 14 diwrnod. Os oes gan y corff wefan, cyhoeddir y datganiad cyfrifon a'r adroddiad archwilydd diwethaf a gymeradwywyd ar y wefan honno.

Gall y Cyngor naill ai arddangos yr hysbysiad a'r wybodaeth angenrheidiol neu arddangos yr hysbysiad yn unig gan wneud yr wybodaeth angenrheidiol ar gael drwy apwyntiad.

Mae'r wybodaeth angenrheidiol yn cynnwys:

y Datganiadau Cyfrifo

y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol - Rhannau 1 a 2

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Materion yn codi yn sgil yr archwiliad (os oes rhai)

Ym mhob achos, gwnewch yn siŵr fod y datganiad cyfrifon/Ffurflen Flynyddol ar gael i'w prynu am swm rhesymol.